Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llangwyryfon

**Neuadd Santes Ursula**
**Llangwyryfon**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 4HA**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llangwyryfon

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llangwyryfon |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Ddydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Nerys Parry |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Bethan Jenkins, Louisa Evans |
| Nifer y lleoedd | 15 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Mawrth tan Ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r wasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 10/05/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/10/2022 |
| Penodwyd person â gofal newydd wythnos cyn yr arolygiad. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Ehangu annibyniaeth plant amser byrbryd.

A2 Gwella’r cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr adeilad a’r ardal allanol.

A3 Ehangu ar y ddarpariaeth o adnoddau yn yr ardal chwarae tu fewn er mwyn i’r plant gael dewis eang o adnoddau i ddatblygu annibyniaeth.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae rhan fwyaf o blant yn hapus iawn o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r gweithgareddau addas sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio yn dda iawn gyda'u cyfoedion a'r ymarferwyr. Dangosant gyfeillgarwch hyfryd tuag at ei gilydd.

Mae rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu gan wenu a rhedeg at ymarferwyr wrth gyrraedd y safle, ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Dangosa bron pob plentyn hoffter tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus pan yn gadael eu rhieni neu ofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn gyda phlant eraill. Er enghraifft wrth rannu tractorau bach yn hwylus ac wrth ddewis rhannu llyfrau stori gyda phlant ac ymarferwyr yn hyderus. Dangosa plant hunan-falchder yn eu gwaith trwy weiddi'n falch wrth iddynt ludo gwrthrychau naturiol ar ddarn o bapur a pheintio lliwiau dail yr Hydref gyda spwng.

Mae rhan fwyaf o blant yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus gan ddewis gweithgareddau o'u diddordeb. Maent yn mwynhau chwarae gyda teganau symudol ac yn arbrofi gyda chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae mwyafrif y plant yn cyfrannu eu syniadau am yr hyn maent yn mynd i wneud gan ddweud wrth ymarferwyr beth maent eisiau ddysgu am themâu megis 'yr Hydref'. Mae bron pob plentyn yn hunan-gofrestru ac yn rhannu eu teimladau'n hyderus wrth wneud hynny. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus. Gwelir plant yn dewis grawnfwydydd, diodydd a byrbryd iachus ac yn dewis ble i eistedd. Mae rhan fwyaf o blant yn dangos sgiliau gwrando arbennig o dda. Maent yn ymateb yn dda iawn i ymarferwyr sydd yn dweud wrthynt i fod yn ofalus wrth chwarae gyda blociau pren. Dangosa rhan fwyaf o blant sgiliau gwrando a chyfathrebu da iawn wrth ymateb i gwestiynau gan ymarferwyr yn ystod amser stori.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio am amser cynyddol, ac yn frwdfrydig iawn wrth chwarae gyda chegin fwd a chwarae rôl siop fwyd tu allan. Gwelir plant yn coginio am amser hir gan wneud cacennau a 'bolognese' yn y cegin fwd. Maent yn rhyngweithio yn arbennig o dda gyda phlant eraill gan rannu a chymryd tro. Mae'r plant yn rhannu ffrwythau a llysiau, gan dorri llysiau i wneud cawl ac eraill yn gwerthu eu nwyddau yn y siop. Mae'r mwyafrif o blant yn helpu ei gilydd ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Er enghraifft wrth roi cyfarwyddiadau i degan electronig i symud o un lliw i'r llall. Wrth ddathlu llwyddiant, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo yn hapus pan yn cael eu canmol gyda sticer seren gan yr ymarferwyr am eu gwaith crefft neu am wrando da yn ystod amser cylch.

Mae tua hanner y plant yn datblygu medrau annibynnol priodol. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau wrth chwarae rôl, gludo, ac adeiladu tyrrau gyda blociau. Mae tua hanner y plant yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach, a gwisgo eu cot eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, gan olchi eu dwylo a bwydo'u hunain amser byrbryd. Mae mwyafrif y plant yn dangos y gallu i ddefnyddio brwsh a phensil yn aeddfed wrth beintio malwoden, ac eraill yn marcio ar fyrddau digidol yn dilyn amlinelliad eu henwau yn ddeallus. Mae plant yn datblygu medrau mathemategol a

ieithyddol da wrth adnabod lliwiau, cyfri ac adnabod enwau gwrthrychau mewn llyfrau yn hyderus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, hoffderau a'u gofynion personol. Mae'r ymarferwyr yn gadael i blant ddewis a dethol adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant trwy gynllunio tasgau yn unol â'u diddordebau. Maent yn cynorthwyo'r plant i ehangu eu dealltwriaeth o iaith lafar ac yn datblygu eu dychymyg wrth ddysgu yn yr awyr agored. Maent yn ymyrryd trwy gwestiynu ac ehangu geirfa Cymraeg y plant yn briodol pan mae cyfleoedd i wneud hynny. Maent yn cyfathrebu yn effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod wrth i blentyn adnabod cymeriadau mewn llyfr. Maent yn rhoi cyfleoedd boddhaol i blant i fod yn annibynnol trwy ddewis 'helpwr' sydd â'r cyfrifoldeb o arllwys llaeth a dwr ar gyfer eu cyfoedion. Er hyn, mae cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau annibynnol y plant ar adegau byrbryd yn gyfyngedig.

Mae bron pob ymarferydd yn darparu cefnogaeth dda i blant i ddatblygu dealltwriaeth am eu hemosiynau trwy roi cyfle iddynt osod eu henawau ar yr emosiynau priodol a siarad am eu teimladau. Maent yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at blant wrth iddynt gyrraedd pob bore. Mae ymarferwyr yn cynnig ystod boddhaol o weithgareddau a phrofiadau sydd yn datblygu gallu'r plant yn briodol yn yr ardal tu fewn. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn sicrhau bod plant yn deall bod angen bod yn ofalus wrth chwarae gyda blociau pren ac maent yn annog plant i ddweud 'diolch' am eu byrbryd a diod. Gwelir ymarferwyr yn annog 'dwylo caredig' wrth i blant geisio dysgu rhannu teganau fferm a chyfarpar yn y siop chwarae rôl.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda am anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cwblhau proffiliau personol a chynlluniau addysg unigol er mwyn ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan bron pob ymarferydd ddealltwriaeth da iawn am weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbwl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau goruchwyliaeth ofalus er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau a digwyddiadau gan gynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r ymarferwyr yn darparu profiadau a chyfleoedd dysgu addas wrth ddatblygu medrau plant mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn creu siop lysiau i’r plant gan ddefnyddio llysiau a ffrwythau go iawn. Caiff y plant gyfleoedd da i gymhwyso eu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh wrth brynu a gwerthu y nwyddau. Mae ymarferwyr yn annog y plant i rifo sawl ffrwyth maent am brynu ac yn eu hannog i ystyried faint o arian sydd angen i dalu am y nwyddau.

Mae’r ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol ac yn bwydo geirfa yn gyson, er enghraifft wrth drafod gwrthrychau mawr, bach a chanolig. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau da sy'n cynnwys llais y plentyn, ac yn llwyddo i ennyn diddordeb pob plentyn yn llwyddiannus ac yn ymestyn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn ychwanegu brigyn i’r eli shafio fel bod y plant yn medru gwneud amrywiaeth o farciau.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn o ddatblygiad plant ac maent yn cynnig darpariaeth sy’n herio bron bob un o’r plant gan adael iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain. Fodd bynnag, does dim rhyddid i'r plant gael mynediad at y gwahanol ardaloedd, tu mewn a thu allan i’r adeilad, er mwyn eu galluogi i gael cyfnodau o chwarae di-dor, yn sgîl adborth diweddar wrth rhieni/gofalwyr sydd wedi rhwystro’r cyfleoedd yma.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae’r plant, gan gynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu’n annibynnol. Er enghraifft, wrth ddosbarthu gwrthrychau yr Hydref yn ôl maint bach, canolig a mawr drwy wrando ar y pegiau recordio.

Mae’r holl ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol â'r plant. Maent yn eu holi’n gelfydd iawn sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau meddwl a chyfathrebu’r plant. Er enghraifft, wrth i blant sôn am gasglu gwrthrychau yr Hydref, mae'r ymarferwyr yn holi beth maent wedi'i weld, pwy sydd yn casglu y cnau, sut maent yn teimlo am benglog yr anifail bach.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac yn modelu’r Gymraeg yn dda. Maent hefyd yn defnyddio iaith arwyddo syml yn dda i helpu y plant ymateb i weithgareddau.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau creadigol a chorfforol y plant yn gyson dda ac yn cynnig cyfleoedd ymarferol i'r plant ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Er enghraifft, trwy ychwanegu pel fawr ioga i’r plant gael rolio ac ymestyn.

Maent yn gwneud defnydd da o’r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu a chwarae ac i gefnogi ymwybyddiaeth y plant o’u cymuned. Er enghraifft, trwy fynd am dro i chwilio am byllau mawr o ddwr i gael neidio ynddynt a theithiau natur ar droed.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn dda. Maent yn datblygu eu chwilfrydedd am fyd natur yn effeithiol drwy dyfu perlysiau i’w defnyddio yn y gegin fwd.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn rhoi clod i'r plant yn gyson wrth iddynt rannu adnoddau a bod yn garedig ag eraill.

Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau a diwrnodau dathlu fel diwrnod Santes Dwynwen a dydd Gŵyl Dewi.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau arsylwi ac asesu pwrpasol, sy'n galluogi'r ymarferwyr i ddefnyddio'r wybodaeth i gynllunio ystod dda o gyfleoedd dysgu a chwarae pwrpasol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth dda i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant drwy drafodaethau wyneb yn wyneb.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar a diogel sy'n sbarduno chwarae'r plant yn effeithiol. Mae'r ardaloedd dysgu a chwarae yn ennyn diddordebau'r plant ac yn eu galluogi i ddarganfod ac archwilio yn bwrpasol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau ardal allannol sydd yn cynnig profiadau estynedig er mwyn datblygu sgiliau corfforol, chwarae dychmygus, sgiliau archwilio a darganfod.

Tu mewn i'r adeilad, mae'r arweinwyr ac ymarferwyr yn creu ymdeimlad o berthyn i'r plant, drwy arddangosfeydd lliwgar sydd yn gwerthfawrogi a dathlu gwaith crefft a ffotograffau'r plant. Ceir dewis boddhaol o adnoddau sydd ar lefel y plant yn bwrpasol a sbardunol yn ôl eu diddordebau personol. Er hyn, roedd cyfleoedd i blant eu hunain i ddewis a dethol ystod eang o adnoddau er mwyn datblygu sgiliau annibynnol yn gyfyngedig.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn effeithiol. Mae modd i blant ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar gelfi sydd yn addas i'w hoedrannau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus tra bod plant yn defnyddio'r tŷ bach ac wrth newid cewyn. Yn ogystal, mae darpariaeth digonol ar gyfer amser tawel yn yr ardaloedd tu fewn. Darperir cyfleoedd sydd yn datblygu dealltwriaeth am bobl yn y gymuned ehangach, er enghraifft storïau ac adnoddau gweledol. Mae'r ddarpariaeth o adnoddau yn cynnwys pypedau a phropiau chwarae rôl, dewis o offer marcio i ddatblygu creadigwrydd. Mae ystod helaeth o adnoddau ar gael ar y safle.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod prosesau effeithiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar greu gwelliannau cyson i weithdrefnau'r lleoliad.Mae'r person â gofal wedi camu mewn i'r rôl yn ystod yr wythnos flaenorol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant. Mae wedi meithrin perthynas bositif gyda'r ymarferwyr ac awyrgylch gartrefol i'r plant. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod prosesau recriwtio cadarn yn eu lle yn ystod y cyfnod yma ac yn y gorffennol.

Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n ardderchog fel tîm i gynnig gofal a chymorth o safon uchel. Mae arweinwyr yn rheoli ymarferwyr yn gydwybodol drwy eu gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu. Maent yn adnabod cryfderau'r staff yn effeithiol a beth sydd angen arnynt i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r trefniadau goruchwylio yn sicrhau

atebolrwydd yr holl ymarferwyr am safon y ddarpariaeth a deilliannau plant yn ogystal â chynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu'n broffesiynol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o hyfforddiant perthnasol i ddatblygu medrau ymarferwyr, er enghraifft wrth godi eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan arweinwyr drefniadau syml ac effeithiol ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwella. Maent yn gwneud defnydd gwerthfawr o adborth athrawon ymgynghorol yr awdurdod addysg lleol a rhieni fel rhan o'r gweithdrefnau hyn.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o unrhyw grantiau i wella profiadau ar gyfer plant. Yn ddiweddar, maent wedi buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau newydd tu fewn ac yn yr ardal allanol sydd yn arwain at ddarparu mwy o brofiadau gwerthfawr i'r plant. Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n llwyddiannus. Maent yn defnyddio’r gyllideb yn effeithiol a blaenoriaethu gwariant. Er enghraifft, archebu sied i gadw adnoddau tu allan.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth ardderchog gyda rhieni. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i hysbysu rhieni am yr hyn sy’n digwydd ac i gynnig arweiniad yn ôl yr angen. Mae'r person a gofal a’r ymarferwyr yn cydweithio’n agos iawn er mwyn ymateb i anghenion y plant. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr drefniadau a dealltwriaeth dda am anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cwblhau proffiliau personol a chynlluniau addysg unigol er mwyn ymateb i anghenion plant yn llwyddiannus. Rhennir llyfryn “Paratoi i’r byd mawr“ gyda’r rhieni sy’n cynnig gwybodaeth ar gamau datblygiadol cymdeithasol,personol ac emosiynol yn y blynyddoedd cynnar.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2022